***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 9

### Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

**Amcangyfrifon o wargedion**

**136.**—(1) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru, ar ôl cymryd i ystyriaeth yr amcangyfrif ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, y bydd y cyfanswm sy'n debygol o gael ei dalu i mewn i'r CBDT yn y flwyddyn ariannol berthnasol yn fwy na'r cyfanswm sy'n debygol o fod yn daladwy allan o'r CBDT yn y flwyddyn honno, rhaid i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod rheolwr cynllun yn talu i Weinidogion Cymru swm sy'n hafal i 80% o'r gwarged tebygol.

(2) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru, ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw amcangyfrif diwygiedig ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, y bydd—

(a) y cyfanswm sy'n debygol o gael ei dalu i mewn i'r CBDT yn y flwyddyn ariannol berthnasol yn fwy na'r cyfanswm sy'n debygol o fod yn daladwy allan o'r CBDT yn y flwyddyn honno; a

(b) 80% o'r gwarged tebygol yn fwy nag—

(i) y swm a dalwyd neu sy'n daladwy gan y rheolwr cynllun i Weinidogion Cymru o dan baragraff (1) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol berthnasol, neu

(ii) os nad oedd unrhyw swm o'r fath wedi ei dalu neu'n daladwy gan y rheolwr cynllun, sero,

caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn talu i Weinidogion Cymru ba bynnag swm y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy hysbysiad ysgrifenedig.

(3) Os yw'r rheolwr cynllun wedi talu swm i Weinidogion Cymru o dan baragraffau (1) a (2), rhaid i gyfanswm y symiau hynny beidio â bod yn fwy nag 80% o warged tebygol yr CBDT am y flwyddyn honno.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn talu swm o dan baragraff (2), nid yw unrhyw swm a dalwyd neu a fyddai wedi bod yn daladwy mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol berthnasol gan Weinidogion Cymru i'r rheolwr cynllun o dan reoliad 135(1) (amcangyfrifon o ddiffygion), i'w dalu, neu, os talwyd swm o'r fath, rhaid i'r rheolwr cynllun ei ad-dalu.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi i'r rheolwr cynllun, ar neu cyn 3 Mawrth yn y flwyddyn ariannol berthnasol, hysbysiad ysgrifenedig o swm unrhyw daliad neu ad-daliad y mae'n ofynnol gan Weinidogion Cymru fod y rheolwr cynllun yn ei wneud o dan baragraff (1), (2) neu (4).

(6) Pan ei gwneir yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn gwneud taliad o dan baragraffau (1) neu (2) neu ad-daliad o dan baragraff (4), rhaid gwneud y taliad neu ad-daliad cyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny.